# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Amrywiol*

**14 Cyfnod para'r Ddeddf hon**

(1) Mae'r Ddeddf hon (ac eithrio is-adran (3) ac, at ddibenion yr is-adran honno, adrannau 17(1), 17(2) a 18) yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod dod i ben, oni bai bod gorchymyn yn cael ei wneud o dan is-adran (2).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ar ôl diwedd y cyfnod adolygu ond cyn diwedd y cyfnod dod i ben, ddarparu bod y Ddeddf hon i barhau mewn effaith er gwaethaf is-adran (1).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth (gan gynnwys darpariaeth sy'n addasu unrhyw ddeddfiad) sy'n angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i'r ffaith bod y Ddeddf hon yn peidio â chael effaith.

(4) Yn yr adran hon—

mae i "y cyfnod adolygu" ("*the review period*") yr un ystyr ag yn adran 13;

ystyr "y cyfnod dod i ben" ("*the expiration period*") yw'r cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r Ddeddf hon i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 14.